PAINTER (TEULU), argraffwyr yn Wrecsam.

Prynwyd busnes argraffu a chyhoeddi Marsh (gweler Marsh, Richard) yn Wrecsam gan JOHN PAINTER cyn diwedd 1795. Priododd JOHN PAINTER, 3 Hydref 1798, â Catherine, merch Hugh Burton, a gadwai fasnachdy yn High Street, Wrecsam. Dilynwyd John Painter, y tad, gan ei fab hynaf, yntau yn John Painter, a fu farw 15 Hydref 1833, yn 32 oed; a dilynwyd yntau gan ei frawd, THOMAS PAINTER, a werthodd y busnes i Railton Potter yn 1855 ac a fu farw 16 Ionawr 1889 yn 82 oed. Yr oedd y tri aelod o'r teulu hwn yn argraffwyr medrus. Y tad a argraffodd Philip Yorke, *Royal Tribes of Wales*, 1799, ac argraffiad Edward Edwards o Browne Willis, *Survey of the Cathedral Church of St. Asaph*, 1801. Y gwaith mwyaf a argraffwyd yn y swyddfa oedd *Beibl* Samuel Clark, wedi ei gyfieithu yn Gymraeg gan John Humphreys, 1813. Rhoddir ychwaneg fanylion personol am Thomas Painter gan Ifano Jones yn ei *History of Printing and Printers in Wales*; e.e. bu'n faer Wrecsam yn 1859 ac yr oedd yn gyfarwyddwr mewn tua thri o gwmnïau lleol.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu